



Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 4YDD EBRILL, 2017

Lleoliad

Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

Sion Owen

01286 679665

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 27 Mawrth 2017)

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Annwen Daniels
E. Selwyn Griffiths
Charles Wyn Jones
Michael Sol Owen

Gweno Glyn
Annwen Hughes
Dilwyn Morgan
Sedd Wag - Plaid Cymru

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Lesley Day
Jean Forsyth
Dylan Fernley

Thomas G. Ellis
Anne Lloyd Jones

Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorwyr

Jason Humphreys

Llafur (1)

Y Cynghorwyr Sion W. Jones

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddhieuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar Dachwedd 29ain, 2016 fel rhai cywir.

5. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

7 - 17

Cyflwyno drafft o'r adroddiad a fydd i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Mehefin 2017 yn amlinellu'r gefnogaeth sydd wedi ei ddatblygu ac wrthi'n cael ei ddatblygu ar gyfer aelodau.

6. ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL 2017

18 - 21

Diweddarau'r Pwyllgor ar y trefniadau anwytho i aelodau yn dilyn etholiadau Mai 4ydd, 2017

7. SIARTER AELODAU

22 - 76

Diweddarau'r pwyllgor ar y cais am y Siarter

8. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG

77 - 78

Diweddarau'r pwyllgor ar faterion cydnabyddiaeth ariannol a cheisio eu barn ar argymhellion i'r Cyngor newydd.

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 29/11/16

YN BRESENNOL: Thomas G. Ellis (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Annwen Daniels, E. Selwyn Griffiths, Charles Wyn Jones, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen, Jean Forsyth a Anne Lloyd Jones

SWYDDOGION: Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol), Vera Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democritaidd), Sion Owen (Swyddog Cefnogi Aelodau)

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Annwen Hughes, Lesley Day, Jason Humphreys a Dylan Fernley

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Medi, 2016 fel rhai cywir.

4. YMGYNGHORIAD PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Cyflwynwyd – sylwadau o'r cyfarfod a fynychwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Hwn a'r Pennaeth Gwasanaethau Democritaidd gydag aelodau'r Panel Annibynnol. Nodwyd fod cynnydd bychan o 0.75% yn y cyflog sylfaenol i aelodau etholedig yn cael ei fwriadau ar gyfer y flwyddyn nesaf ar ôl etholiadau'r Cyngor. Golyga hynny gynnydd o £100 y flwyddyn. Gofynnwyd i'r pwyllgor am eu sylwadau.

Adroddwyd mai pwrpas yr ad-daliad costau gofal oedd galluogi pobl o drawstoriad o gefndiroedd a sefyllfaoedd i fod yn aelodau etholedig trwy eu galluogi i fynychu cyfarfodydd. Nodwyd na fu unrhyw hawliad am ad-daliad o gostau gofal yn ddiweddar gan fod cyhoeddusrwydd negyddol wedi deillio o gyhoeddi hawlio'r ad-daliadau gofal.

O ran cofnodi'r rheswm pam fod aelod wedi bod yn absennol o gyfarfod, nodwyd mai'r bwriad oedd er mwyn hysbysu eraill mai er mwyn cofnodi methu mynychu gan fod aelod yn rhywle arall ar fusnes y Cyngor.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:-

- Beth oedd ymateb cyngorau eraill? Mewn ymateb nododd yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni fod barn gymysg ymysg yn gyffredinol, gydag ambell gyngor yn gwrthod y cynnig
- Y dylid derbyn y cynnydd o ran egwyddor, er mwyn hybu ymgeiswyr o wahanol gefndiroedd i sefyll mewn etholiad
- Ei fod yn bwysig gochel rhag gorfod rhannu manylion am ad-daliadau costau gofal trwy gais rhyddid gwybodaeth. Mewn ymateb nododd yr Uwch Reolwr Cefnogaeth

Gorfforaethol nad oedd manylion am yr ad-daliadau yn wybodaeth oedd yn dod o dan yr 'hawl i wybodaeth'. Gan y byddai gwirio fod yr arian wedi ei rannu yn briodol yn cael ei wirio yn y ffordd arferol.

- Dylid cofnodi pan fo aelodau yn absennol oherwydd eu bod ar fusnes y Cyngor, ac y dylai sefydliadau fod yn ymwybodol o gyfarfodydd sy'n cael eu trefnu gan sefydliadau eraill a'r galwadau hynny ar amser aelodau.
- Na ddylai'r Panel dderbyn gwahoddiad i siarad gyda'r Cyngor Llawn. Mewn ymateb nododd yr Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol mai eisiau clywed lleisiau gwahanol oedd y Panel, ond nad oedd hynny o reidrwydd yn gorfod digwydd yn y Cyngor Llawn.

PENDERFYNWYD:

a) cefnogi'r cynnig i gynyddu y lwfans sylfaenol o £13,300 i £13,400

b) er mwyn hyrwyddo mwy o aelodau cymwys i hawlio y cymorth costau gofal, cefnogwyd y dylid cyhoeddi cyfanswm a ad-dalwyd gan yr awdurdod yn ystod y flwyddyn, ond heb briodoli'r taliadau i unrhyw aelod, a gofyn i'r Panel hefyd ystyried sut i sicrhau na fyddai ceisiadau rhyddid gwybodaeth yn y dyfodol yn golygu y byddai'n rhaid i awdurdodau ryddhau gwybodaeth am hawlio ad-daliadau costau gofal fesul unigolyn.

c) cefnogi'r trefniadau newydd arfaethedig ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch gan ddeilydd uwch gyflog.

ch) cefnogi'r argymhelliad i nodi'r rheswm am absenoldeb lle bo hynny yn sgil aelod yn cynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfod arall, tra'n nodi y byddai'n rhaid i aelodau unigol ddarparu'r wybodaeth eu hunain.

d) gwahodd y Panel i gyfarfod â'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn y dyfodol a nid y Cyngor Llawn

5. ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL 2017

Cyflwynwyd - adroddiad cynnydd ar y paratodau ar gyfer etholiad 2017. Adroddwyd fod y trefniadau arfaethedig wedi eu cyflwyno yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Nodwyd fod y cyfarfodydd ar gyfer codi ymwybyddiaeth ymysg darpar ymgeiswyr wedi eu trefnu.

Ychwanegodd fod angen i'r Pwyllgor ystyried tri pheth yn benodol wrth drafod y Dyddiadau

Croesawu:

A – Cynyddu'r adnodd ar gyfer dysgu dros y we - e-ddysgu

B – Edrych ar wneud hyfforddiant yn fandadol

C – Cyhoeddi presenoldeb aelodau mewn hyfforddiant

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:-

- Oes yno awgrym nad yw Aelodau yn mynychu'r cyfarfodydd sydd yn eu hardaloedd eu hunain? Atebodd yr Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol fod yr Is-grŵp wedi trefnu i Aelodau nad oedd yn bwriadu ymgeisio yn yr Etholiad i fynd i siarad yn y cyfarfodydd, gan wneud hynny y tu allan i'w hardaloedd. Nododd fod y cyfarfodydd yn rhai cyhoeddus, gyda'r bwriad o rannu gwybodaeth a rhoi cyfle i ofyn cwestiynau yn unig. 'Roedd bwriad i rannu gwybodaeth gyda'r Cyngor a'r Fforymau ardal yn ogystal.
- Fod clerwr un Cyngor Cymuned/Tref wedi cwyno am y poster hyrwyddo gan ei fod yn teimlo ei fod yn ddilornus gan roi argraff blentynnaidd o Gynghorwyr. Mewn ymateb nododd yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni mai bwriad y poster oedd bod yn syml a pheidio â bod yn fygythiol, heb unrhyw fwriad bod yn ddilornus.
- Mynegwyd pryder, o weld yr amser byr sydd rhwng yr etholiad a'r sesiynau anwytho, y gallai fod yn anodd i Aelodau sydd newydd eu hethol yn 2017 drefnu amser i ffwrdd o'r gwaith i fynychu'r sesiynau anwytho. Mewn ymateb nododd yr

Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol fod bwriad rhannu'r dyddiadau anwytho i ddarpar ymgeiswyr er mwyn eu rhagrybuddio a pharatoi petaent yn cael eu hethol.

- Fod e-ddysgu yn berthnasol iawn ac yn bwysig er mwyn galluogi aelodau i dderbyn hyfforddiant ar amser sy'n gyfleus iddynt hwy.
- Y dylid nodi lefel presenoldeb aelodau mewn hyfforddiant, gan geisio cynnwys gwybodaeth am e-ddysgu hefyd.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

6. DATBLYGIAD MODERN.GOV

Cyflwynwyd - diweddariad ar ddefnydd y Cyngor o feddalwedd Modern.gov ers prynu a mewnosod y meddalwedd yn 2015. Nodwyd fod y rhaglen yn galluogi'r Gwasanaeth Democratiaeth i gyhoeddi mwy o wybodaeth, gyda 40 aelod etholedig yn defnyddio'r 'ap' sy'n gysylltiedig â'r meddalwedd.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:-

- Byddai'n fuddiol cysylltu'n well gydag Outlook er mwyn hwyluso presenoldeb aelodau a swyddogion wrth drefnu cyfarfodydd.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

7. SIARTER AELODAU

Cyflwynwyd yr adroddiad, gan egluro fod yr adnoddau ar gael gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i asesu cynghorau ar gyfer y freinlen (Siarter Aelodau) bellach. Un o'r prif faterion oedd angen sylw ar gyfer cyflawni'r Siarter oedd sicrhau bod swydd ddisgrifiadau i aelodau yn gywir ac yn addas i bwrpas. Gofynnwyd felly am ganiatâd y Pwyllgor i ymgynghori â'r rhai sy'n cyflawni'r swyddi dan sylw a chynnull is-grŵp i roi eu barn a chynorthwyo'r Cyngor i ennill y Siarter.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:-

- O feddwl fod yno swydd ddisgrifiad, oes yno wedyn elfen o werthuso perfformiad? Mewn ymateb nododd yr Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol gan nad yw aelodau etholedig yn staff i'r Cyngor, nid oedd elfen o werthuso ynghlwm â mabwysiadu swydd ddisgrifiadau. Fodd bynnag, roedd cyfweiliadau datblygu personol ar gael i unrhyw aelod sy'n dymuno manteisio arnynt.
- Ychwanegu "cyd-weithio a thrafod gyda'r deilydd portffolio" i swydd ddisgrifiad Pencampwr.
- Ychwanegu categori 'cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol i'r swydd ddisgrifiad cyffredinol. Nodwyd fod adolygiad ar y gweill yn y maes i fesur y disgwyliadau ar aelodau sy'n aelodau o gyrff allanol.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 11.50 y.b.

Eitem 5

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	4ydd Ebrill 2017
PWNC	Adroddiad blynyddol gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar ran y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yng nghyswllt cefnogaeth i aelodau
PWRPAS	Cyflwyno drafft o'r adroddiad a fydd i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Mehefin 2017 yn amlinellu'r gefnogaeth sydd wedi ei ddatblygu ac wrthi'n cael ei ddatblygu ar gyfer aelodau.
AWDUR	Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

1. Cyflwynir isod ddrafft o'r adroddiad sydd i'w chyflwyno i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2017. Bydd yr adroddiad yn amlinellu'r gefnogaeth i aelodau sydd wedi ei wireddu hyd yma dros gyfnod y Cyngor hwn ynghyd a'r elfennau sy'n parhau i gael eu datblygu ar gyfer aelodau etholedig.
2. Fe welwch o'r adroddiad drafft fod rhai darnau yn parhau i fod angen eu llenwi, a bydd angen diweddarau rhai elfennau yn sgil trafodaethau eraill.
3. Mae hefyd yn fwriad gennym ddatblygu dyluniad yr adroddiad ymhellach, gan ei gwneud yn ddogfen haws i'w ddarllen i aelodau presennol a rhai newydd.
4. Dan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn gyfrifol am faterion penodol (dan Adran 11), fel a ganlyn:
 - Cyflawni rôl yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
 - Adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael yng nghyswllt staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer gofynion y rôl
 - Cynhyrchu adroddiad, o leiaf pob blwyddyn, i'w chyflwyno i'r Cyngor Llawn yng nghyswllt cefnogaeth i aelodau.
5. Dymunaf ddiolch i holl aelodau'r Pwyllgor am eu cefnogaeth, eu brwdfrydedd a'u trafodaethau adeiladol, ynghyd â'r gwaith a gyflawnwyd dros y pum mlynedd diwethaf.



ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

- Cefnogaeth i Aelodau
Etholedig Gwynedd



RHOI POBL GWYNEDD YN GANOLOG I BOPETH RYDYM YN EI WNEUD • PUTTING THE
PEOPLE OF GWYNEDD AT THE CENTRE OF EVERYTHING WE DO

Gydag etholiadau Llywodraeth Leol ym Mai 2017 , mae eleni yn gyfle i edrych yn ôl dros y flwyddyn diwethaf a thymor y Cyngor ers sefydlu'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am y tro cyntaf yn Mehefin 2012.

Dan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn gyfrifol am faterion penodol (dan Adran 11), fel a ganlyn:

- Cyflawni rôl yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
- Adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael yng nghyswllt staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer gofynion y rôl
- Cynhyrchu adroddiad, o leiaf pob blwyddyn, i'w chyflwyno i'r Cyngor Llawn yng nghyswllt cefnogaeth i aelodau.

Mae adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael i aelodau etholedig er mwyn cyflawni y rôl wedi bod yn rhan greiddiol o fy ngwaith i a gwaith y Pwyllgor, ac mae fy niolch yn fawr i bawb sydd wedi bod â mewnbwn dros y blynyddoedd diwethaf.



A handwritten signature in black ink, appearing to read 'E. Owen'. The signature is written in a cursive style.

**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,
Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol**

CEFNDIR

Yn 2012 croesawyd 75 aelod i'r Cyngor newydd, yn gyfuniad o aelodau yn dychwelyd, ac aelodau yn ymuno o'r newydd. Yn ystod y tymor rydym wedi croesawu 9 o aelodau eraill hefyd.

Beth sydd wedi newid yn y cyfnod ers 2012?

TREFNIADAU LLYWODRAETHU



- Sefydlu trefn Cabinet/ Craffu am y tro cyntaf yn dilyn etholiadau 2012, gan ddatblygu'r trefniadau dros y pum mlynedd diwethaf.
- Adolygu'r trefniadau craffu er mwyn eu gwella. Cafwyd cydnabyddiaeth nad oedd y drefn craffu yn gweithio cystal ag y gallai, ac felly adolygwyd y trefniadau yn ystod y flwyddyn diwethaf, gyda phenderfyniad ar y ffordd ymlaen wedi ei wneud gan y Cyngor Llawn ar y 3ydd o Fawrth, 2017.
- Cynnal nifer o weithdai ar bynciau penodol, gweithdai anffurfiol er mwyn rhoi'r cyfle i aelodau ddod i ddeall y pwnc dan sylw gan sicrhau eu bod felly yn gallu dod i gasgliad teg yn dilyn derbyn yr holl wybodaeth mewn gweithdai anffurfiol e.e. Her Gwynedd, Comisiwn Ffiniau ayyb

CYFATHREBU ELECTRONEG



- Cyfathrebu yn electroneg – bellach mae gan y mwyafrif llethol o Aelodau gyfarpar electroneg er mwyn eu galluogi i dderbyn gwybodaeth yn sydyn, a hefyd lleihau ôl-troed carbon y Cyngor trwy leihau'r defnydd o bapur. Gwirededwyd £220,379.60 o arbedion ers 2012 wrth leihau'r costau printio a phostio.

- Bellach, defnyddir Modern.gov ar gyfer rhannu papurau pwyllgor – system electroneg ydyw, ac mae nifer wedi nodi fod y system yn llawer iawn haws i'r defnyddiwr nag oedd y trefniadau blaenorol. Llwyddir i sicrhau fod 65% o bapurau pwyllgor yn cael eu rhannu 5 diwrnod gwaith clir cyn dyddiad y Pwyllgor aX% yn cael eu rhannu dri diwrnod gwaith clir cyn dyddiad y pwyllgor.
- Mae Modern.gov hefyd wedi ei gwneud yn llawer haws i bobl Gwynedd ddod o hyd i wybodaeth am eu Cynghorwyr Lleol. Mae lluniau pob aelod ar y safle we, ynghyd a'u manylion cyswllt ac ystadegau diddorol e.e. gwybodaeth am y pwyllgorau neu gyrff allanol y maent yn aelodau ohonynt, a phresenoldeb o fewn y pwyllgorau hynny.


Cynhelir y cyfarfodydd a phwyllgorau trwy'r Gymraeg, gyda darpariaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. Cyhoeddir yr holl wybodaeth yn ddwy-ieithog, ac mae Cyngor Gwynedd wedi gweithio gyda chwmnïau allanol er mwyn sicrhau bod darpariaeth Modern.gov ar gael yn rhwydd yn y ddwy iaith.

- Ar ddechrau tymor y Cyngor, nododd aelodau fod gwybodaeth yn eu cyrraedd o amrywiol gyfeiriadau, ac i geisio rhoi trefn ar hyn datblygwyd bwletin gwybodaeth electroneg o'r enw 'Rhaeadr'. Bydd gwybodaeth bwysig yn cael ei rannu'n amserol trwy Rhaeadr.

LLEOLIADAU CYFARFOD A SICHAU DEMOCRATIAETH MWY AGORED



- Diweddarwyd yr ystafelloedd cyfarfod, gan gynnwys Siambrau Dafydd Orwig a Hywel Dda.
 - Gwnaethpwyd addasiadau mynediad i'r anabl
 - Gosodwyd 'hoops clustiau' yn nifer o'r ystafelloedd cyfarfod i helpu gyda sain
 - Cafwyd camau penodol trwy'r cardiau adnabod i sicrhau diogelwch aelodau a staff
- Fel rhan o'r uchod, diweddarwyd y system gyfieithu yn y siambrau yng Nghaernarfon, gan gyflwyno system bleidleisio electroneg yn Siambr Dafydd Orwig ar yr un pryd. Bydd yr aelodau yn mwynhau profi'r system ar ddechrau pob cyfarfod o'r Cyngor!
- Yn Ionawr 2015 bu i Cyngor Gwynedd ddechrau gwe-ddarlledu rhai o'r prif bwyllgorau er mwyn ceisio annog mwy o bobl i chwarae rhan mewn democratiaeth yng Ngwynedd a gweld beth sy'n digwydd mewn pwyllgorau. Dengys y ffigyrau gwyllo bod cryn ddiddordeb yn y gwe-ddarllediadau, yn arbennig o ran gwyllo'r archif. Dengys y graffiau bod y niferoedd yn uwch pan fo eitemau cynhennus, neu pan fo gwaith hyrwyddo penodol wedi digwydd.





Unwaith eto, gwelir fod Cyngor Gwynedd yn arwain y gad trwy sicrhau fod darpariaeth dwy-ieithog ar gyfer y gwe-ddarlledu .

- Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod ei bod yn heriol i rai aelodau fod yn bresenol mewn rhai cyfarfodydd, ac felly rydym wedi peilota, ac yn defnyddio offer fideo gynadledda ar gyfer cyfarfodydd llai ffurfiol er mwyn ceisio lleihau ar deithio i aelodau. Tra mae'r defnydd o'r adnodd wedi cynyddu, mae lle amlwg i wella ar yr adnodd yma, gyda'r gobaith o allu symud ymlaen i ddefnyddio'r adnodd mewn pwyllgorau ffurfiol.
- Yn dilyn adolygiad o'r hen drefn Pwyllgorau Ardal sefydlwyd pedair Fforwm Ardal yn 2013 - Gwyrfai, Ogwen, Dwyfor a Meirionnydd sydd yn cyfarfod pump gwaith y flwyddyn. Sefydlwyd y Fforymau Ardal gyda'r bwriad i wella'r ymgysylltiad hefo cymunedau, cael gwell canlyniadau i'r ardal a gwneud gwell defnydd o adnoddau aelodau a swyddogion.
- Yn ogystal, cynhaliwyd prosiect penodol i geisio hybu Democratiaeth i bawb, gan geisio annog pobl o bob cefndir i gymryd rhan mewn Democratiaeth, ac yn arbennig i sefyll yn yr etholiadau llywodraeth leol. Gwanethpwyd hyn trwy
 - Wella'r safle we a rhoi mwy o wybodaeth i ddarpar ymgeiswyr
 - Creu fideos i geisio esbonio yn syml beth yw rol Cyngorydd a'r gwasanaethau mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol amdanynt
 - Creu holiadur i geisio deall y rhwystrau rhag sefyll mewn etholiadau

Hyrwyddwyd yr holiadur yn y wasg, safle we'r Cyngor a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol Facebook a Trydar. O'r ymatebion, ymddengys nad oes rhwystrau penodol nad yw'r Cyngor wedi ceisio ymateb iddynt yn barod e.e. mae'r Cyngor wedi codi ymwybyddiaeth bod help ar gael gyda gofal plant. Yr oedd y diddordeb uchaf yn y grŵp oedran 26 - 49 sydd yn dangos bod yr ymgyrch wedi cael sylw oedran iau na chyfartaledd oedran aelodau Cyngor Gwynedd cyn etholiad Mai, 2017.

Niferoedd gwylwyr y ddwy fideo ers mis Gorffennaf 2016:



DATBLYGIADAU ERAILL

- Penderfynu ac adolygu cyflogau ac uwch gyflogau i aelodau, a'u cyhoeddi yn unol â gofynion.
- Datblygu trefniadau i adrodd nol wrth gynrychioli'r Cyngor ar gyrrff allanol neu yn eu rolau fel Pencampwyr
- Cynorthwyo 39 o aelodau i gynhyrchu 102 o adroddiadau blynyddol, a'u cyhoeddi ar y safle we fel bo modd i bobl Gwynedd weld beth mae eu haelod lleol wedi bod yn ei wneud.
- Sicrhau fod trefniadau anwytho aelodau newydd i'r Cyngor sy'n ymuno yn ystod y tymor yn bodoli
- Sefydlwyd is-grŵp o'r Pwyllgor i gynorthwyo swyddogion gyda'r gwaith paratoi ar gyfer gwneud cais i ennill Siarter Aelodau erbyn diwedd 2017.
- Cynnal cyfweiliadau datblygiad personol er mwyn i aelodau adnabod rhaglen o hyfforddiant penodol i wella eu sgiliau hwy, gan ddefnyddio'r negeseuon fel sail i raglen hyfforddiant gyffredinol i aelodau. Yn ogystal, gwanethpwyd camau mawr i ddatblygu'r elfennau canlynol:
 - Hyfforddiant ar lein
 - Hyfforddiant unigryw i aelodau unigol yn unol â'u gofynion
 - Hyfforddiant i grwpiau bach o aelodau sy'n annog dysgu yn well
 - Webinarau
 - Arbrofi gyda ffilmio hyfforddiant fel bo aelodau sy'n methu bod yn bresennol yn gallu gwyllo'r cwrs maes o law.
 - Adborth gan aelodau yn gryf iawn, yn arbennig ar gyfer meysydd hyfforddiant newydd e.e. cyfryngau cymdeithasol

PARATOI AR GYFER ETHOLIADAU
LLYWODRAETH LEOL 2017



- ❖ Mae cryn waith hefyd wedi ei wneud ar gyfer ceisio paratoi yn drylwyr ar gyfer y cyfnod cyn, ac yn syth ar ol, yr etholiadau ym mis Mai 2017. Cynhaliwyd nifer o sgysiau gydag aelodau i ofyn am eu profiadau a sut y gellid gwella pethau ar gyfer aelodau fydd yn ymuno â'r Cyngor o'r newydd yn dilyn yr etholiadau. Yn dilyn y trafodaethau, mae nifer o baratodau mewn llaw, gan gynnwys:
 - Cynnal sesiynau paratoi ymgeiswyr
 - Datblygu 'porth' gwybodaeth yn arbennig ar gyfer aelodau etholedig
 - Hyfforddiant ar lein
 - Trefnu dyddiau croesawu mewn modd gwahanol, gan sicrhau sesiynau mwy rhyngweithiol i'r aelodau
 - Blaenoriaethu yr wybodaeth i'w gyflwyno i'r aelodau ar ddechrau'r tymor
 - Sicrhau fod aelodau'n gallu dod o hyd i wybodaeth drostynt eu hunain
 - Sicrhau datblygiadau Technoleg Gwybodaeth
 - Sicrhau bod aelodau'n deall gofynion cyrff allanol o ran ymrwymiad i'r gwaith pe baent yn cael eu henwebu arnynt.

A beth sydd ar y gweill nesaf yn 2017/18 ac ymlaen?

Croesawyd xxxxx o aelodau newydd i'r Cyngor yn dilyn etholiadau Mai 2017, ac er mwyn eu cefnogi hwy a'r aelodau eraill, mae'r cynlluniau isod ar y gweill:

- ❖ Anwytho dwys/ hyfforddiant – rhaglen waith benodol wedi ei chreu ar gyfer 9fed a 10fed o Fai, 2017, gyda rhaglen gyflawn am y flwyddyn gyntaf hefyd wedi ei gosod eisoes. Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn asesu y rhaglen hyfforddiant yn ystod y flwyddyn gyntaf er mwyn sicrhau fod y materion cywir yn cael eu hadnabod ar gyfer y flwyddyn ganlynol ac ymlaen.
- ❖ Datblygu'r model craffu newydd a'i weithredu – Penderfynodd y Cyngor ar y model craffu newydd yn ei gyfarfod ar y 3ydd o Fawrth, 2017. Bydd gwaith penodol yn digwydd i sefydlu a gweithredu'r trefniadau newydd yn 2017/18.
- ❖ Trefniadau hawlio costau teithio a thalu cyflogau ar lein – Mae'n fwriad ceisio symud oddi wrth daflenni papur wrth hawlio costau teithio a thalu Cyflogau i aelodau etholedig. Bydd gallu hawlio trwy ddulliau electroneg yn galluogi aelodau i fod yn prosesu eu hawliadau o gartref, ac yn lleihau ar y gwaith papur i bawb.
- ❖ Ymateb pellach I Bapur Gwyn y Llywodraeth ar Ddiwgio Llywodraeth Leol
- ❖ Ymgynghori yn barhaus gydag Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd er mwyn adnabod meysydd i fod yn fwy effeithiol a gwella gwasanaeth
- ❖ Mabwysiadu disgrifiadau o rolau ar gyfer gwahanol swyddogaethau sydd gan aelodau. Bwriedir cyflwyno argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i gyfarfod y Cyngor Llawn ar 15fed o Fehefin er mwyn sicrhau arweiniad ac eglurder o'r disgwyliadau mewn gwahanol rolau i aelodau. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu tuag at geisio sicrhau dyfarniad 'siarter aelodau' i'r Cyngor
- ❖ Parhau i ddatblygu'r Porth aelodau. Datblygiad diweddar ar gyfer cyfnod y Cyngor newydd yw'r Porth Aelodau, sef 'mewnwyd' i'r aelodau lle bo gwybodaeth defnyddiol ar gael mewn un lle canolog. Bwriedir ymgynghori yn gyson gyda'r aelodau er mwyn gwella'r adnodd hwn yn barhaus.
- ❖ Rhoi cymorth i aelodau yn eu rol fel aelodau lleol. Mae'r mater yma wedi ei adnabod gan aelodau cyfredol, a bwriedir ceisio datblygu modd i'r aelodau ffeilio gwybodaeth sy'n berthnasol iddynt o ran eu gwaith ward, yn hytrach na'u gwaith gyda'r Cyngor yn unig.
- ❖ Maer ymgynghoriad cyfredol ar Ffiniau Etholaethol gan y y Comisiwn Ffiniau ar y gweill, a phan ddaw canlyniad yr ymgynghoriad yn glir, bydd yn angenrheidiol paratoi ar gyfer ei weithredu o 2022 ymlaen.

- ❖ Parhau i ymgynghori gydag aelodau, yn arbennig aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ynghylch sut i wella'r gefnogaeth a roddir iddynt

DRAFFET

Eitem 6

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	4ydd Ebrill 2017
PWNC	Trefniadau Anwytho Aelodau
PWRPAS	Diweddarau'r Pwyllgor ar y trefniadau anwytho i aelodau yn dilyn etholiadau Mai 4ydd, 2017
SWYDDOG PERTHNASOL	Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

1. CEFNDIR

- 1.1. Mae aelodau'r Pwyllgor a swyddogion o wahanol adrannau ar draws y Cyngor wedi gweithio'n galed dros y flwyddyn diwethaf i baratoi ar gyfer yr etholiadau ym mis Mai 2017.
- 1.2. Y prif elfen i ddwyn i sylw'r Pwyllgor bellach yw'r trefniadau cyfredol ar gyfer y dyddiau Croesawu i Aelodau newydd a rhai sy'n dychwelyd. Mae'r dyddiau croeso i'w cynnal ar y 9fed a'r 10fed o Fai, 2017.
- 1.3. Gweler trefniadau'r Dyddiau Croeso ar y taflenni isod.
- 1.4. Yn ogystal, mae cryn waith wedi ei wneud yn y cefndir i hwyluso materion i aelodau yn y Cyngor nesaf, megis datblygiadau'r safle we, sesiynau codi ymwybyddiaeth i ddarpar aelodau, a dechrau datblygu'r Porth Aelodau lle bydd gwybodaeth ddefnyddiol ar gael. Bwriedir dangos datblygiad diweddaraf y Porth yn y cyfarfod.


DYDDIAU CROESO AELODAU ETHOLEDIG / ELECTED MEMBERS WELCOME DAYS

9FED A'R 10FED O FAI 2017/ 9TH AND 10TH MAY 2017

Dydd Mawrth, 9fed o Fai, 2017:		Tuesday, 9th May, 2017	
9.30 - 10	Cofrestru a phaned	9.30 - 10	Registration and refreshments
10 - 11	Croeso a chyflwyniad i'r Cyngor gan y Prif Weithredwr – Dilwyn Williams Lleoliad - Siambr Dafydd Orwig.	10 - 11	Welcome and introduction to the Council by the Chief Executive – Dilwyn Williams Location – Siambr Dafydd Orwig.
11 - 12	Ymweld â stondin fesul grŵp. (*) Lleoliad – Amrywiol	11 - 12	Group visits to the stands. (*) Location - Variable
12 - 1	EGWYL CINIO.	12 - 1	LUNCH BREAK.
1 - 2	Ymweld â stondin fesul grŵp. Lleoliad – Amrywiol	1 - 2	Group visits to the stands. Location - Variable
2 - 3	Ymweld â stondin fesul grŵp Lleoliad – Amrywiol	2 - 3	Group visits to the stands. Location – Variable
3 - 4	Cyflwyniadau gan Benaethiaid Adran. Lleoliad – Siambr Dafydd Orwig. <ul style="list-style-type: none"> • Oedolion – Aled Davies • Plant – Marian Parry Hughes • Addysg – Arwyn Thomas • Cefnogaeth Gorfforaethol - Geraint Owen 	3 - 4	Presentation by Heads of Department. Location – Siambr Dafydd Orwig <ul style="list-style-type: none"> • Adults – Aled Davies • Children – Marian Parry Hughes • Education – Arwyn Thomas • Corporate Support - Geraint Owen
4 - 5	Cyfle i rwydweithio a holi'r Penaethiaid yn anffurfiol	4 - 5	<i>Opportunity to network informally with the Heads of Services.</i>

Dydd Mercher, 10fed o Fai, 2017:		Wednesday, 10th May, 2017	
9.30 - 10	Cofrestru a phaned	9.30 - 10	Registration and refreshments
10 - 11	Ymweld â stondin fesul grŵp. (*) Lleoliad – Amrywiol	10 - 11	Group visits to the stands. (*) Location - Variable
11 - 12	Sesiwn rhwydweithio a chyfarfod cyd-aelodau (anffurfiol) Lleoliad - Siambr Dafydd Orwig.	11 - 12	Informal networking session and to meet other Members Location – Siambr Dafydd Orwig.
12 - 1	EGWYL CINIO.	12 - 1	LUNCH BREAK.
1 - 2	Ymweld â stondin fesul grŵp. Lleoliad – Amrywiol	1 - 2	Group visits to the stands. Location - Variable
2 - 3	Cyflwyniadau gan Benaethiaid Adran. Lleoliad – Siambr Dafydd Orwig. <ul style="list-style-type: none"> • Economi – Sioned Williams • Priffyrdd a Bwrdeistrefol – Gwyn Morris Jones • Rheoleiddio – Dafydd Wyn Williams • Ymgynghoriaeth Gwynedd – Huw Williams • Cyllid – Dafydd L Edwards 	2 - 3	Presentation by Heads of Department. Location – Siambr Dafydd Orwig <ul style="list-style-type: none"> • Economy – Sioned Williams • Highways and Municipal – Gwyn Morris Jones • Regulatory – Dafydd Wyn Williams • Gwynedd Consultancy – Huw Williams • Finance – Dafydd L Edwards
3 - 4	Cyfle i rwydweithio a holi'r Penaethiaid yn anffurfiol	4 - 5	<i>Opportunity to network informally with the Heads of Services.</i>

STONDINAU Y DYDDIAU CROESO / STANDS AT THE WELCOME DAYS



Eitem 7

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	4ydd Ebrill 2017
PWNC	Siarter Aelodau
PWRPAS	Diweddarau'r pwyllgor ar y cais am y Siarter
AWDUR	Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

1. CEFNDIR

- 1.1. Bydd yr aelodau'n cofio bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi trafod 'Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr' ac wedi derbyn diweddariad ar y cais am y Siarter yn ei gyfarfod ar 29 Tachwedd 2016.
- 1.2. Datblygwyd y Freinlen gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a chyfeirir ati ar lafar fel 'Siarter Aelodau'. Mae elfennau o'r Freinlen yn cyd-fynd ac yn adeiladu ar ofynion Mesur Llywodraeth Leol 2011 (Cymru). Bwriad y Freinlen yw gosod safonau penodol ym maes datblygu aelodau.
- 1.3. Yn ei gyfarfod ar 29 Tachwedd 2016, penderfynwyd sefydlu is-grŵp o aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i rannu eu barn ar wahanol ddatblygiadau er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i wneud cais i ennill y Siarter.
- 1.4. Un o'r prif elfennau oedd angen sylw oedd datblygu disgrifiadau o rolau aelodau er mwyn eu cynorthwyo i ddeall gofynion gwahanol rolau. Nodwyd y byddai o fudd datblygu'r elfen hon yn awr fel bo'r 'disgrifiadau o rolau' ar gael fel cymorth i aelodau newydd i ddeall gofynion gwahanol rolau o fewn y Cyngor.
- 1.5. Er bod nifer o ddisgrifiadau o rolau yn bodoli eisoes, yr oedd angen creu nifer o'r newydd hefyd.
- 1.6. Cymrwyd y cyfle i ddiweddarau'r rhai oedd yn bodoli eisoes ar yr un pryd a chreu rhai newydd. Defnyddiwyd canllawiau'r Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i lunio pob un o'r Disgrifiadau o Rôl a Chyfrifoldeb Aelod ac yn ogystal, ar gyfer y Pwyllgor Archwilio, defnyddiwyd canllawiau CIPFA (The Chartered Institute of Public Finance and Accountancy). Mae pob Disgrifiad o Rôl a Chyfrifoldeb Aelod (Drafft) yn cynnwys disgrifiad o'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni yn y gwahanol rolau.

2. YMGYNGHORI

2.1 Ymgynghorwyd ar gynnwys y gwahanol Disgrifiadau o Rôl a Chyfrifoldeb Aelodau (Drafft) gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol, y Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol ynghyd â swyddogion y Gwasanaeth Democrataidd.

2.2 Cyflwynwyd y Disgrifiadau o Rôl a Chyfrifoldeb Drafft ar gyfer Aelod Cabinet, Arweinydd y Cyngor a'i Ddirprwy a'r Pencampwr i'r Tîm Arweinyddiaeth am eu barn.

2.3 Bu i'r is-grŵp gyfarfod i roi eu barn ar Ddisgrifiadau o Rôl a Chyfrifoldeb Aelodau (Drafft) y rolau sydd wedi eu nodi isod, sef

- Aelod o Gyngor Gwynedd (sydd yn berthnasol i bob aelod)
- Aelod o Bwyllgor Archwilio
- Cadeirydd Pwyllgor Archwilio
- Aelod o Bwyllgor Craffu
- Cadeirydd Pwyllgor Craffu
- Aelod Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- Aelod Pwyllgor Safonau
- Cadeirydd Pwyllgor Safonau
- Aelod Pwyllgor Trwyddedu
- Cadeirydd Pwyllgor Trwyddedu
- Aelod Pwyllgor Cynllunio
- Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio
- Cadeirydd y Cyngor
- Arweinydd Gwrthblaid a'i Ddirprwy

Gweler Atodiad A ar gyfer manylion y 'disgrifiad o rolau'.

2.4 Noder, fel yr eglurwyd eisoes mewn cyfarfodydd blaenorol, na fydd elfen o werthuso ynghlwm â mabwysiadu disgrifiadau o rolau. Fodd bynnag, bydd cyfweiliadau datblygu personol ar gael i unrhyw aelod sy'n dymuno manteisio arnynt.

3. CAMAU NESAF

3.1 O ran y camau nesaf, gofynnir i'r Pwyllgor ystyried cynnwys y 'disgrifiad o rolau' (drafft) a chyflwyno argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'r Cyngor Llawn newydd ar 15 Mehefin 2017 i'w mabwysiadu'n ffurfiol.

- 3.2 Fel yr eglurwyd eisoes, un o'r prif fanteision o greu a mabwysiadu'r 'disgrifiad o rolau' yw'r budd a gaiff aelodau newydd i'r Cyngor o'u defnyddio fel canllaw i ddeall yn well y gwahanol rolau ar wahanol bwyllgorau.
- 3.3 O ystyried yr uchod, gofynnir i'r Pwyllgor hefyd ystyried cyhoeddi y 'disgrifiad o rolau' (drafft) ar y Porth aelodau (mewnwyd i aelodau) fel arf i gynorthwyo'r aelodau newydd ym mis Mai, cyn eu mabwysiadu yn ffurfiol gan y Cyngor newydd.
- 3.4 Mae'r gwaith o gwblhau gweddill y cais am y Freinlen yn mynd yn ei flaen gyda'r bwriad o ddefnyddio is-grŵp o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd newydd yn dilyn yr Etholiad. Bwriedir cyflwyno'r cais am y freinlen yn ystod tymor yr hydref.

4. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

- gyflwyno'r 'disgrifiad o rolau' ar eu ffurf drafft presennol fel argymhelliad i'r Cyngor Llawn newydd eu mabwysiadu'n ffurfiol yn ei gyfarfod ar 15fed o Fehefin 2017.
- Gyflwyno'r 'disgrifiad o rolau' ar eu ffurf drafft presennol ar y Porth aelodau hyd iddynt gael eu mabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor Llawn.

Disgrifiad o rôl Aelod o'r Cabinet

(cyfrifoldeb am bortffolio penodol o feysydd o fewn gwasanaethau'r Cyngor)

Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

Egwyddorion ymddygiad cyngorwyr

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Cynnal y gyfraith

1. Atebolrwydd

- I'r Arweinydd
- I'r Cabinet (trwy gyfrifoldeb ar y cyd)
- I'r Cyngor Llawn

2. Rôl, diben a gweithgarwch

2.1 Arwain yn y maes cyfrifoldeb

- Rhoi cyfeiriad gwleidyddol i'r swyddogion yn y maes cyfrifoldeb.
- Cynrychioli'r maes dan sylw mewn modd cryf, galluog a darbwyllo. Bod yn arweinydd amlwg mewn cyfarfodydd â phobl berthnasol.
- Bod yn brif lefarwr gwleidyddol dros y maes dan sylw.
- Arwain y maes cyfrifoldeb, oddi fewn ac oddi allan y Cyngor, gan gymryd perchnogaeth drosto, ei hyrwyddo a'i esbonio.
- Datblygu a chynnal perthynas waith da gyda Chadeiryddion y Pwyllgor Craffu perthnasol gan fynychu cyfarfodydd achlysurol gyda hwy, gan ymateb i ymchwiliadau penodol.
- Datblygu a chynnal perthynas waith dda gyda Chadeiryddion ac Aelodau amrywiol bwyllgorau'r Cyngor er mwyn rhannu gwybodaeth am y maes cyfrifoldeb.
- Mynychu'r Pwyllgor(au) Craffu er mwyn i'r aelodau craffu eu dal i gyfrif.
- Datblygu a chynnal perthynas waith dda gydag Aelodau eraill y Cabinet ac Arweinydd y Cyngor.
- Datblygu a chynnal perthynas waith dda gydag uwch swyddogion y Cyngor.
- Cadw trosolwg ar weithgareddau o fewn y maes cyfrifoldeb mewn ymgynghoriad â'r pennaeth/ penaethiaid Adran perthnasol.
- Bod yn atebol am ddewisiadau a pherfformiad ym maes y portffolio.

- Helpu Aelodau eraill i ddeall gwaith y maes cyfrifoldeb, ymateb i'w pryderon a cheisio datrys unrhyw anawsterau.

2.2 Fel aelod o'r Cabinet (cyfrifoldebau tîm)

- Gweithredu fel aelod o'r tîm Cabinet
- Ceisio adeiladu consensws trwy gydweithio gyda'r Aelodau Cabinet i ddarganfod tir cyffredin.
- Cyfrannu at lunio a gweithredu rhaglen waith addas i'r Cabinet.
- Sicrhau fod y Cyngor fel busnes, yn gweithredu'n effeithiol ac effeithlon.
- Cydnabod materion sy'n croesi ffiniau maes cyfrifoldeb, cyfrannu'n briodol iddynt a chymryd penderfyniadau ar y cyd.
- Cymryd perchnogaeth dros benderfyniadau'r Cabinet.
- Parchu penderfyniadau democrataidd y Cabinet a'r Cyngor.
- Cydweithio â swyddogion i lunio polisiau strategol a statudol. Gofalu bod y Cabinet yn gweithredu yn ôl ewyllys gwleidyddol y mwyafrif.
- Llunio adroddiadau i'r Arweinydd, y Cyngor Llawn, y Cabinet, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol, y Cyrff Rheoleiddio a'r cyfryngau lle bo'n briodol.

2.3 Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

- Hyrwyddo a chynnal llywodraethu da yn y Cyngor a'i waith.
- Arwain y gymuned a hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar.
- Hyrwyddo a chynnal llywodraeth agored a thryloyw.
- Meithrin a chadw cysylltiadau teilwng, priodol ac effeithiol gyda gweithwyr y Cyngor.

2.4 Hunanreoli

- Hysbysu ei hun am ei f/maes cyfrifoldeb gan sicrhau trefniadau briffio addas iddo/i hun.
- Ymgymryd â hyfforddiant priodol i'r swydd gan gymryd cyfrifoldeb dros asesu ac adnabod ei anghenion hyfforddi ei hun.
- Gweithio oddi fewn i bolisiau cyffredinol y Cyngor.
- Hyrwyddo a chynnal egwyddorion llywodraethu da.

3. I gyflawni ei rôl yn ôl y disgrifiad, bydd Aelod Cabinet angen:

3.1 Arwain yn y maes mae'n gyfrifol amdano

- Deall strategaethau, polisiau a gweithgareddau'r Cyngor.
- Gallu arwain

3.2 Helpu i bennu agenda strategol a rhaglen waith yn y maes mae'n gyfrifol amdano

- Gallu cyflwyno gwybodaeth i bobl eraill.
- Craffter strategol.
- Gwybod materion perthnasol a phwy ddylai fod ynghlwm wrth benderfynu.
- Gallu darbwylo pobl eraill.
- Gwybod amcanion y Cyngor a'r wlad.

3.3 Cynrychioli'r maes mae'n gyfrifol amdano

- Gallu siarad yn gyhoeddus yn glir.
- Gallu cyflwyno'n dda.

3.4 Rhoi adroddiadau a rhoi cyfrif

- Sgiliau cyfathrebu ar lefel uchel.

3.5 Cymryd rhan yng nghyfarfodydd a phenderfyniadau'r Cabinet

- Gallu cwestiynu penderfyniadau yn adeiladol ac awgrymu dewisiadau eraill.
- Gwybodaeth, hyder a gallu i gymryd rhan mewn trafodaethau a helpu i ddatrys materion sy'n ymwneud â mwy nag un maes a/neu aelod.

3.6 Arwain partneriaethau a'r gymuned

- Gallu arwain yn addasol
- Gallu trafod telerau a broceriaeth .
- Meddwl yn graff a chreadigol – dawn darogan.

3.7 Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

- Deall swyddogaethau Cyngorwyr, swyddogion ac amryw asiantaethau.
- Awydd i gydweithio ag eraill.
- Gwybod a deall Côt Ymddygiad Aelodau a Phrotocol y Cyngorwyr a'r Swyddogion.
- Gwybod gwerthoedd y Cyngor ac ymroi iddyn nhw.

NODER: Mae'r disgrifiad rôl a'r gofynion sgiliau uchod yn ychwanegol i'ch disgrifiad rôl a'r gofynion sgiliau fel aelod cyffredin

Enw Llawn: _____

Arwyddwyd: _____

Dyddiad: _____

DRAFT

Disgrifiad o rôl yr Arweinydd a'i Ddirprwy/ei Dirprwy

(Mae'r arweinydd yn cael ei ethol gan y Cyngor Llawn ac yn arwain y Cyngor tan yr etholiad nesaf – sydd fel rheol yn gyfnod o bum mlynedd. Mae'r Arweinydd yn penodi'r Cabinet ac yn arwain cyfeiriad gwleidyddol y Cyngor)

Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

Egwyddorion ymddygiad cyngorwyr

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Cynnal y gyfraith

1. Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I'r cyhoedd

2. Diben a gweithgareddau

2.1 Rhoi arweiniad gwleidyddol i'r Cyngor

- Bod yn arweinydd gwleidyddol i'r Cyngor ac yn brif lefarwr gwleidyddol iddo.
- Rhoi arweiniad o ran meithrin cysyniad gwleidyddol ym mholisiau'r Cyngor.
- I ffurfio gweledigaeth ar gyfer y Cyngor a'r gymuned.
- Rhoi arweiniad cryf a chlir ynglŷn â chydlynu polisiau, strategaethau a threfniadau darparu gwasanaethau.

2.2 Penodi'r Cabinet*

- Dynodi cyfrifoldebau priodol.
- Penodi cyngorwyr priodol i gyflawni'r cyfrifoldebau hynny.
- Rhoi cyfrifoldebau i aelodau'r Cabinet yn ôl eu galluedd.
- Penodi'r Dirprwy Arweinydd.

2.3 Cynrychioli'r Awdurdod a bod yn llysgennad iddo

- Cynrychioli'r Awdurdod mewn modd cryf, galluog a huawdl yn y sir ac mewn cyrff allanol fel ei gilydd.

- Cynrychioli'r Awdurdod ym Mhwyllgor Cydlynu Cymdeithasol Llywodraeth Leol Cymru a Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Cymdeithasol Llywodraeth Leol Cymru.
- Rhoi arweiniad a chymorth i bartneriaethau a mudiadau lleol.
- Cynrychioli'r Awdurdod mewn cyrff rhanbarthol a gwladol lle bo'n briodol.

2.4 Rhoi arweiniad yn y maes mae'n gyfrifol amdano

- Ysgwyddo cyfrifoldebau penodol, gan gadw mewn cof ddiben a gwaith cynghorydd gweithredol a'r disgrifiad o'i swyddogaeth.

2.5 Rheoli ac arwain gwaith y Cabinet a llywio ei gyfarfodydd

